



**Cyfarfod agored gyda Bwrdd CHC
a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Gorffennaf 2017
yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd**

Cynhaliodd Bwrdd CHC yr ail o ddau gyfarfod agored o'r bwrdd ar 17 Gorffennaf 2017. Diben y cyfarfod agored o'r bwrdd oedd:

- *Rhoi cyfle i aelodau roi adborth ar berfformiad CHC mewn lleoliad caeedig heb y weithrediaeth yn bresennol os gofynnir am hynny.*
- *Trafod materion o bwysigrwydd strategol i'r sector gyda'r aelodaeth yn ehangach*

Roedd cynrychiolwyr o 5 cymdeithas tai yn bresennol yn y cyfarfod ynghyd ag aelodau o Fwrdd a Gweithrediaeth CHC.

Roedd y materion allweddol a godwyd yn y cyfarfod yn cynnwys:

Llywodraethiant CHC: Atgoffwyd y rhai oedd yn bresennol am y newidiadau allweddol i strwythur llywodraethiant CHC, a welodd symud ymaith o fwrdd cynrychioladol mawr gyda'i aelodau'n cael eu hethol o blith y sector i fwrdd busnes llai lle caiff aelodau eu dewis ar sail sgiliau a chymwyseddau drwy broses ddethol agored a thryloyw. Trafodwyd y potensial ar gyfer Cadeirydd annibynnol yn y dyfodol a thanlinellwyd pwysigrwydd sicrhau fod y Cadeirydd yn rhywun sy'n deall busnes y sector ac sydd ag ymroddiad i'r rôl lysgenhadol ehangach a ddaw gyda hi. Cytunwyd y byddid angen cynllunio cadarn ar gyfer olyniaeth.

Enw Da y Sector a Chysylltiadau Cyhoeddus: Trafodwyd pwysigrwydd cynyddu proffil cadarnhaol y sector a chydweithio i gynllunio negeseuon allweddol a chynyddu ei effaith. Roedd trafodaeth am p'un oes angen i ni wella perthynas gyda'r cyfryngau yng Nghymru. Cytunwyd ei bod yn hollbwysig sicrhau cynnydd ehangach gan yn aml caiff mater ei feirniadu gan rai nad ydynt yn ei ddeall a, gyda grym cyfryngau cymdeithasol, gall hyn gael canlyniadau niweidiol. Ystyriwyd bod y Rhwydwaith Cysylltiadau Cyhoeddus yn hanfodol wrth gydlyn hyn.

Cynnig CHC i aelodau a dull gweithio gydag aelodau: Yn dilyn cyflwyniad byr yn rhoi trosolwg o waith diweddar gan CHC i sefydlu meysydd allweddol o ffocws, trafodwyd meysydd allweddol a chwestiynwyd os oedd gan CHC ddigon o adnoddau i sicrhau hyn. O gael cynllunio a pharatoi, rhoddodd y weithrediaeth sicrwydd i aelodau y gellir cyflawni'r nodau. Mae ailwampio'r rhwydweithiau presennol yn rhan allweddol o hyn gan y bydd yn rhyddhau adnodd sylweddol a hefyd yn sicrhau fod amser a gofod i gyd-ddatblygu polisi gydag aelodau tra'n alinio'r grwpiau hyn gydag amcanion y cynllun busnes. Cytunwyd ein bod angen cydbwysedd gan fod â ffocws ar y blaenoriaethau ar unwaith gan wneud yn siŵr ein bod hefyd yn adnabod a gwneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer y sector yn y dyfodol.

Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Dywedwyd na chyhoeddwyd yr adroddiad hyd yma ond y disgwylir hynny yn y dyfodol agos. Bydd yr adroddiad yn amlinellu nifer o argymhellion ar gyfer y sector a'r rheoleiddiwr.